**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 03-03(p3)**

**12 Chwefror 2003**

# PYSGODFEYDD - GORCHYMYN CIMYCHIAID RHY FACH (CYMRU) 2002

## Diben

1. Cymeradwyaeth y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i fwrw ymlaen â'r gwaith o wneud y ddeddf uchod fel mesur i warchod y stoc cimychiaid.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ei fod yn briodol i wneud y Gorchymyn hwn.

## Y Cefndir

3. Mae angen sicrhau bod rhai elfennau penodol o ddeddfwriaeth bresennol y DU ar gadwraeth dechnegol pysgodfeydd yn cydymffurfio â Rheoliad cadwraeth dechnegol y UE rhif 850/98. Daeth y Rheoliad i rym ar 1 Ionawr 2002, ac yr oedd yn cynnwys rheol mai dim ond cimychiaid dros 87 mm y gellir eu glanio.

4. Yr oedd y darpariaethau ar gyfer isafswm y corgimychiaid o ran maint a diwygiadau arfaethedig eraill i'r Rheoliad yn ganlyniad i argymhellion Grp Gwarchod Pysgodfeydd y DU a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr pysgotwyr a swyddogion yr Adrannau Pysgodfeydd, a sefydlwyd gan Weinidogion yn 1995 er mwyn archwilio mesurau ar gyfer gwella cadwraeth dechnegol pysgod a physgod cragen.

5. Aethpwyd i'r afael ag ymgynghoriad eang i ddelio â'r argymhellion ac unrhyw gostau neu fuddiannau a fyddai'n codi petai'r mesurau'n cael eu mabwysiadu. Yr oedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig ac yr oeddent yn dymuno'u gweld yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl.

6. Yr oedd y Pwyllgor Busnes wedi ystyried y Gorchymyn ac adroddwyd yn ôl i'r Dirprwy Lywydd. Yn dilyn hynny, mae'r Dirprwy Lywydd wedi penderfynu y bydd y Rheoliadau hyn yn mynd rhagddynt drwy'r weithdrefn gyflymach i'w cymeradwyo, heb ddadl, yn y cyfarfod llawn fel rhan o gynnig cyfansawdd.

## Yr effaith ar fusnesau bach

7. Mae’r isafswm o ran maint glanio o 87mm (hyd y gragen - gweler Atodiad A) wedi ei orfodi o amgylch arfordir Cymru ers o leiaf pum mlynedd, o dan ddeddfau lleol a grewyd gan ddau Bwyllgor Pysgodfeydd Môr yr awdurdodau Cymreig lleol. Mae'r Gorchymyn newydd hwn yn dod â'r isafswm o ran maint glanio o dan ddeddfwriaeth genedlaethol, ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa sy’n bodoli yng ngweddill y DU.

8. Ni cheir unrhyw effaith ar bysgotwyr cimychiaid o ganlyniad i'r Gorchymyn newydd hwn. Nid fydd y Gorchymyn yn berthnasol i longau pysgota o dramor. Serch hynny, caiff y rhan fwyaf o gimychiaid eu dal wrth y lan ac mae llongau o dramor wedi eu gwahardd gan ddeddfwriaethau eraill rhag pysgota yn yr ardaloedd hyn.

**Yr Ystyriaeth Gyfreithiol**

9. Gallai methu â thrawsosod Rheoliad 1998 yr UE i ddeddfwriaeth y DU (Cenedlaethol) olygu achos tor-ddyletswydd. Ni welwyd unrhyw frys i drawsosod y Rheoliad gan fod yr isafswm o ran maint y sonnir amdano eisoes yn cael ei weithredu gan ddau Bwyllgor Pysgodfeydd y Môr yng Nghymru. Serch hynny, o ystyried y gellir diddymu deddfau lleol mae'n holl bwysig bod y Gorchymyn hwn yn sail i'r ddarpariaeth orfodi leol sydd eisoes mewn grym. Gwneir y Gorchymyn o dan y pwerau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967, a drosglwyddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Nid oes yna unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad oherwydd mai Arolygwyr Pysgodfeydd Môr DEFRA fydd yn gwneud unrhyw waith gorfodi ychwanegol sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn o fewn cyllidebau presennol yr Arolygiaeth.

**Y Sylwadau a Geisir**

11. Gofynnir i'r Pwyllgor i roi cefnogaeth i gyflwyno’r Gorchymyn a fydd yn helpu i warchod y stociau cimychiaid sy'n gyfran bwysig o'r hyn y mae pysgotwyr glannau Cymru yn eu dal.

**Swyddog Cyswllt**
Glyn Perryman
Yr Is-adran Polisi Amaethyddol